Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG
GAN
LYWODRAETH CYMRU

TEITL	**Rheoliadau Sylweddau sy'n Teneuo'r Osôn a Nwyon Tŷ Gwydr wedi'u Fflworeiddio a (Diwygiadau etc.) (Ymadael â'r UE) 2018**
DYDDIAD	**21 Rhagfyr 2018**
GAN	**Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**

Rheoliadau Sylweddau sy'n Teneuo'r Osôn a Nwyon Tŷ Gwydr wedi'u Fflworeiddio a (Diwygiadau etc.) (Ymadael â'r UE) 2018

Mae Rheoliadau 2018 yn cynnwys darpariaethau sy'n dod o fewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli. Maent yn diwygio'r ddeddfwriaeth a ganlyn:-

Deddfwriaeth Ddomestig

- Rheoliadau Sylweddau sy'n Teneuo'r Osôn 2015
- Rheoliadau Nwyon Tŷ Gwydr wedi'u Fflworeiddio 2015

Rheoliadau'r UE

- Rheoliad (EC) Rhif 1005/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch sylweddau sy'n teneuo'r osôn.
- Rheoliad (EU) Rhif 517/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar nwyon tŷ gwydr wedi'u fflworeiddio.
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 291/2011 ar y defnydd hanfodol o sylweddau wedi'u rheoli ar wahân i hydroclorofflworocarbonau at ddibenion labordai a dadansoddi yn yr Undeb o dan Reoliad (EC) Rhif 1005/2009 y Senedd Ewropeaidd a'r Cyngor ar sylweddau sy'n teneuo'r osôn.
- Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 537/2011 ar y dull ar gyfer dyrannu symiau o sylweddau wedi'u rheoli sy'n cael eu caniatáu at ddibenion dadansoddi yn yr Undeb o dan Reoliad (CE) Rhif 1005/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar sylweddau sy'n teneuo'r osôn.
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1497/2007 sy'n sefydlu, yn unol â Rheoliad (CE) Rhif 842/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor, ofynion gwirio gollyngiadau safonol ar gyfer systemau diogelu rhag tân sefydlog sy'n cynnwys rhai nwyon tŷ gwydr wedi'u fflwroreiddio.
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1516/2007 sy'n sefydlu, yn unol â Rheoliad (CE) Rhif 842/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor, ofynion gwirio gollyngiadau safonol ar gyfer

systemau diogelu rhag tân sefydlog sy'n cynnwys rhai nwyon tŷ gwydr wedi'u fflworeiddio.

- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 304/2008 sy'n sefydlu, yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 842/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor, y gofynion sylfaenol a'r amodau ar gyfer cyd-gydnabod wrth ardystio cwmnïau a phersonel o ran systemau diogelu rhag tân sefydlog a diffoddyddion tân sy'n cynnwys nwyon tŷ gwydr penodol wedi'u fflworeiddio.
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 306/2008 sy'n sefydlu, yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 842/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor, y gofynion sylfaenol a'r amodau ar gyfer cyd-gydnabod wrth ardystio personel sy'n adfer rhai sylweddau'n seiliedig ar nwyon tŷ gwydr penodol wedi'u fflworeiddio o offer.
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 307/2008 sy'n sefydlu, yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 842/2006 Senedd Ewrop a'r Cyngor, y gofynion sylfaenol ar gyfer rhaglenni hyfforddiant a'r amodau ar gyfer cyd-gydnabod wrth ardystio hyfforddiant ar gyfer personel o systemau awyru mewn cerbydau penodol sy'n cynnwys nwyon tŷ gwydr penodol wedi'u fflworeiddio.
- Rheoliad gan y Comisiwn (EU) Rhif 1191/2014 yn penderfynu ar y fformat a'r dulliau o gyflwyno'r adroddiad y cyfeiriwyd ato yn Erthygl 19 Rheoliad (EU) Rhif 517/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar nwyon tŷ gwydr wedi'u fflworeiddio.
- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 2015/2065 sy'n sefydlu, yn unol â Rheoliad (EU) Rhif 517/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor, y fformat ar gyfer hysbysu rhaglenni hyfforddi ac ardystio yr Aelod-wladwriaethau.
- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 2015/2066 sy'n sefydlu, yn unol â Rheoliad (EU) Rhif 517/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor, ofynion sylfaenol a'r amodau ar gyfer cyd-gydnabod ardystiad o bersonau naturiol sy'n gosod, gwasanaethu, cynnal a chadw, trwsio neu ddat-gomisiynu offer switsis trydan sy'n cynnwys nwyon tŷ gwydr wedi'u fflworeiddio, neu adfer nwyon tŷ gwydr wedi'u fflworeiddio o offer switsis trydan sefydlog
- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 2015/2067 sy'n sefydlu, yn unol â Rheoliad (EU) Rhif 517/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor, y gofynion sylfaenol a'r amodau ar gyfer cyd-gydnabod ardystiad o bersonau naturiol o ran offer oeri, awyru a phwmpio gwres, ac unedau oeri tryciau ac ôl-gerybdau wedi'u hoeri, sy'n cynnwys nwyon tŷ gwydr gwydr wedi'u fflworeiddio ac ar gyfer ardystio cwmnïau offer oeri, awyru a phwmpio gwres sefydlog sy'n cynnwys nwyon tŷ gwydr wedi'u fflworeiddio.
- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (UE) Rhif 2015/2068 sy'n sefydlu, yn unol â Rheoliad (EU) Rhif 517/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor, fformat labeli ar gyfer cynnyrch ac offer sy'n cynnwys nwyon tŷ gwydr wedi'u fflworeiddio.
- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (UE) 2016/879 sy'n sefydlu, yn unol â Rheoliad (EU) Rhif 517/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor, drefniadau manwl sy'n gysylltiedig â datganiad cydymffurfio wrth osod offer oeri, awyru a phwmpio gwres sy'n cynnwys hydrofflworocarbonau ar y farchnad a'i ddilysu gan archwiliwr annibynnol.

Penderfyniadau'r UE

- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (UE) 2017/1984 sy'n penderfynu, yn unol â Rheoliad (EU) Rhif 517/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar nwyon tŷ gwydr wedi'u fflworeiddio, werthoedd cyfeirio ar gyfer y cyfnod 1 Ionawr 2018 i 31 Rhagfyr 2020 ar gyfer pob cynhyrchydd neu fewnforwiwr sydd wedi rhoi hydrofflworocarbonau ar y farchnad yn gyfreithiol o'r 1 Ionawr 2015 fel a gofnodwyd o dan y Rheoliad hwnnw.

Deddfwriaeth Ewropeaidd i gael ei ddirymu

Mae Rheoliadau 2018 hefyd yn dirymu'r canlynol:-

- Penderfyniad y Comisiwn 2010/372/EU ar y defnydd o sylweddau o dan reolaeth fel asiantaethau proses o dan Erthygl 8(4) Rheoliad (EC) Rhif 1005/2009 o Senedd Ewrop a'r Cyngor wedi'i ddirymu.
- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 2015/2065 sy'n sefydlu, yn unol â Rheoliad (EU) Rhif 517/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor, fformat hysbysu rhaglenni hyfforddi ac ardystio yr Aelod-wladwriaethau wedi'i ddirymu.
- Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 2017/1984 sy'n penderfynu, yn unol â Rheoliad (EU) Rhif 517/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar nwyon tŷ gwydr wedi'u fflworeiddio, ar werthoedd cyfeirio ar gyfer y cyfnod 1 Ionawr 2018 tan 31 Rhagfyr 2020 ar gyfer pob cynhyrchydd neu fewnforiwr sydd wedi rhoi hydrofflworocarbonau ar y farchnad yn gyfreithiol o'r 1 Ionawr 2015 fel a gofnodwyd o dan y Rheoliad wedi'i ddirymu.

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Mae'r Rheoliadau yn trosglwyddo swyddogaethau sy'n syrthio o fewn cymhwysedd datganoledig Gweinidogion Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.

Mae'r Rheoliadau hefyd yn darparu ar gyfer Gweinidogion Cymru gyda phŵer i gydsynio i'r Ysgrifennydd Gwladol wrth ymarfer y swyddogaethau hynny gan Weinidogion Cymru, mewn perthynas â Chymru.

Mae'r swyddogaethau a drosglwyddir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn gyfystyr â swyddogaethau un o Weinidogion y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae paragraff 11 o Atodlen 7B yn cyfyngu ar gymhwysedd y Cynulliad i ddileu neu addasu swyddogaethau Gweinidogion y Goron heb gydsyniad y Gweinidog perthnasol o Lywodraeth y DU, pan fo'r swyddogaeth yn swyddogaeth cymwys wedi'i ddatganoli sy'n cynnwys swyddogaeth y mae modd ei hymarfer ar y cyd/yn gydamserol i unrhyw raddau. Byddai hyn yn golygu bod unrhyw Fil gan y Cynulliad yn y dyfodol i geisio addasu (dileu neud newid) y swyddogaethau hyn, yn gallu golygu y bydd gofyn ymgynghori â Llywodraeth y DU.

Diben y diwygiadau

Mae'r offeryn hwn yn diwygio'r ddeddfwriaeth berthnasol i sicrhau bod mesurau diogelu a fframweithiau rheoliadol yn cael eu cynnal a'u cadw, ac yn parhau i weithio yn yr un modd pan fydd y DU wedi ymadael â'r UE.

Mae'r offeryn hwn yn gwneud mân ddiwygiadau technegol i'r ddeddfwriaeth bresennol a ddisgrifir uchod i sicrhau ei bod yn gweithio'n iawn pan fydd y DU wedi ymadael â'r UE. Mae'r newidiadau yn yr offeryn hwn yn cynnwys cywiriadau angenrheidiol megis: diwygio croesgyfeiriadau at ddeddfwriaeth yr UE; diwygio cyfeiriadau at yr UE, sefydliadau'r UE a phrosesau gweinyddol yr UE i gynnwys rhai domestig; diweddaru cyfeiriadau cyfreithiol i gyfeirio at ddeddfwriaeth ddomestig berthnasol; ac addasu gofynion adrodd y Llywodraeth fel sy'n briodol.

Mae'r OS a'r Memoranda Esboniadol cysylltiedig sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: https://beta.parliament.uk/work-packages/w1y5C4tN

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.